Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

---

**Mawrth 2022**

---

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cefndir

Ers mis Ebrill 2020, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal arolwg ffôn ymgysylltu â'r cyhoedd i ofyn i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru sut mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig wedi effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant.

Mae'r arolwg wedi cynnwys set o gwestiynau safonol gyda chwestiynau eraill yn newid yn dibynnu ar faterion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno data o arolwg Mawrth 2022. Mae data'r arolwg yn cael eu haddasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd*.

Dyma rownd olaf yr arolwg yn ei fformat presennol. Yn ystod y flwyddyn hon byddwn yn sefydlu panel llesiant i barhau i fonitro materion iechyd cyhoeddus allweddol yng Nghymru.

Diolchwn i bobl Cymru am roi eu hamser gwerthfawr i gefnogi'r gwaith hwn.



*Oni nodir yn wahanol. Trwy gydol yr adroddiad, efallai na fydd ffigurau bob amser yn ychwanegu at 100% oherwydd talgrynnu.

# Prif ganfyddiadau

Cyfwelwyd â 1000 o drigolion Cymru 18 oed a hŷn ym mis Mawrth 2022*.

Dywedodd mwyafrif y bobl eu bod yn parhau i ddefnyddio mesurau amddiffynnol i leihau eu risg o ddal neu ledaenu coronafeirws. Er enghraifft:

**92%** yn dweud y byddent yn hunan-ynysu pe bai ganddynt symptomau coronafeirws.

**68%** yn dweud eu bod yn osgoi lleoedd gorlawn.

**66%** yn dweud eu bod yn cadw nifer y bobl yr oeddent yn cwrdd â nhw i'r lleiafswm.

**19%**

o bobl yn dweud eu bod wedi bod yn poeni 'llawer' am eu harian yn ystod yr wythnos ddiwethaf; gan barhau â chynnydd a welwyd o tua 12% ar ddiwedd 2021.

**14%**

o bobl wedi bod yn poeni 'llawer' am eu hiechyd meddwl yn ystod yr wythnos ddiwethaf; o gymharu ag uchafbwynt o 30% yn gynnar ym mis Ionawr 2021.

**40%**

o bobl yn dewis rhestrau aros y GIG fel eu prif flaenoriaeth polisi am y 12 mis nesaf a dewisodd 19% coronafeirws (allan o restr o saith opsiwn#). Pan ofynnwyd y cwestiwn hwn gyntaf ym mis Ionawr 2021, dewisodd 71% coronafeirws fel eu prif flaenoriaeth a dewisodd 9% restrau aros y GIG.

*Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 7fed a 31ain Mawrth 2022; daeth y rhan fwyaf o gyfyngiadau COVID-19 i ben yng Nghymru ar 28ain Mawrth 2022. #Yr opsiynau oedd: Rhestrau aros y GIG, coronafeirws, iechyd meddwl, addysg, newid hinsawdd, diweithdra, Brexit.

# Ynglŷn â coronafeirws

| Ydych chi'n meddwl fod ganddoch neu eich bod wedi cael coronafeirws? | | |
|---|---|---|
| | Ydw | 41% |
| | Ddim yn gwybod | 3% |


| Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael coronafeirws? | | |
|---|---|---|
| | Dim o gwbl | 38% |
| | Ychydig | 28% |
| | Gymedrol | 22% |
| | Hynod | 11% |

# Profion coronafeirws

## A ydych chi wedi cael prawf PCR neu wedi gwneud prawf llif unffordd yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?

| | |
|---|---|
| Naddo | 59% |
| Do, prawf PCR | 2% |
| Do, prawf llif unffordd | 37% |
| Do, prawf PCR a phrawf llif unffordd | 3% |


## Nifer y profion llif unffordd a wnaed yn ystod y 7 diwrnod diwethaf gan y rhai a ddywedodd eu bod wedi gwneud prawf*




*Data heb ei bwysoli, n=350.

# Sut ydym yn bihafio?

## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref neu'ch gardd?




## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref…

| | 0 diwrnod | 1-2 diwrnod | 3-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| …i weithio | 56% | 9% | 9% | 26% |
| …i siopa | 18% | 51% | 17% | 14% |
| …i ymarfer corff | 38% | 19% | 15% | 28% |
| …i gwrdd a teulu / ffrindiau | 37% | 37% | 17% | 9% |
| …i fwyta mewn caffi, tafarn neu fwyty | 60% | 34% | 5% | 1% |
| …i yfed mewn tafarn neu far | 76% | 21% | 2% | <1% |

# Beth ydych yn boeni amdano?

**Dros yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni chi?**

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Materion iechyd eraill nad ydynt yn gysylltiedig â coronafeirws | 56% | 25% | 19% |
| Colli rhywun annwyl i'r feirws | 49% | 30% | 21% |
| Lles eich plant*#~ | 29% | 34% | 38% |
| Addysg eich plant*#~ | 28% | 27% | 45% |
| Colli'ch swydd neu fethu dod o hyd i un#~ | 75% | 13% | 12% |
| Eich materion ariannol | 52% | 28% | 19% |
| Mynd allan i fannau cyhoeddus# | 55% | 33% | 12% |
| Effeithiau Brexit | 51% | 30% | 19% |


*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â plant sy'n byw ar yr aelwyd; #Ac eithro'r rhai a ymatebodd ddim yn berthnasol; ~Data heb ei bwysoli.

# Pa mor dda ydym ni'n ymdopi â choronafeirws?


| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac anghyutuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Credaf fod **Llywodraeth Cymru** yn ymateb yn dda i'r problemau a achosir gan coronafeirws | 22% | 45% | 16% | 11% | 7% |
| Rwy'n hyderus y byddai'r **GIG** yn gallu gofalu amdanaf yn ddigonol pe bawn i'n ddifrifol wael gyda coronafeirws | 23% | 47% | 13% | 12% | 5% |

# Pa mor dda ydym ni’n ymdopi â choronafeirws?

**Ydych chi’n meddwl fod y cyfyngiadau sydd mewn lle i reoli coronafeirws yn…**




**A ydych chi'n cefnogi’r gofyniad parhaus* am orchuddion wyneb mewn siopau a mannau cyhoeddus dan do eraill yng Nghymru?**




*Daeth y gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn y rhan fwyaf o fannau cyhoeddus dan do i ben yng Nghymru ar 28ain Mawrth 2022.

# Ymddygiadau amddiffynnol

## Pa un o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n ei wneud i leihau eich risg o ddal neu ledaenu coronafeirws?

| | Ydw |
|---|---|
| Gwisgo gorchudd gwyneb mewn mannau dan do cyhoeddus | 85% |
| Osgoi llefydd gorlawn | 68% |
| Diheintio dwylo'n rheolaidd | 87% |
| Osgoi trafeilio dramor | 69% |
| Cynnal pellter cymdeithasol o amgylch eraill nad yn byw gyda | 72% |
| Trefnu i gwrdd a phobl mewn lleoliadau awyr agored lle bo hynny'n bosibl | 63% |
| Cadw'r nifer y bobl rwy'n cwrdd a nhw i'r lleiafswm | 66% |
| Hunan – ynysu os oes gennyf symptomau coronafeirws | 92% |
| Defnyddio prawf llif yn rheolaidd | 65% |
| Gweithio o adref* | 42% |

*Daeth y gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn y rhan fwyaf o fannau cyhoeddus dan do i ben yng Nghymru ar 28ain Mawrth 2022.
#Data heb ei bwysoli, ac eithro'r rhai a ymatebodd 'ddim yn berthnasol'.

# Blaenoriaethau polisi

**O'r rhestr yma o feysydd polisi posib, beth ddylai fod yn flaenoriaeth yn gyntaf, ail a thrydydd dros y 12 mis nesaf yn eich barn chi?**

| | Blaenoriaeth 1af | 2il flaenoriaeth | 3ydd blaenoriaeth | Wedi'i gynnwys yn y 3 prif flaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|
| Rhestr aros GIG | 40% | 20% | 15% | 74% |
| Coronafeirws | 10% | 20% | 19% | 49% |
| Iechyd meddwl | 19% | 15% | 14% | 48% |
| Addysg | 12% | 19% | 15% | 46% |
| Newid hinsawdd | 12% | 9% | 15% | 35% |
| Brexit | 4% | 11% | 11% | 26% |
| Di-weithdra | 3% | 6% | 12% | 21% |

# Blaenoriaethau polisi

**Gan ddefnyddio graddfa lle 0 yw ddim yn hapus o gwbl a 10 yw yn gwbl hapus, pa mor hapus fyddech chi'n dweud yr ydych gyda'r canlynol yng Nghymru?**

| | 0-3 | 4-6 | 7-10 | Amh* |
|---|---|---|---|---|
| Y GIG yn gyffredinol | 9% | 32% | 60% | |
| System addysg Cymru | 11% | 47% | 42% | |
| Rheoli trosedd | 14% | 49% | 37% | |
| Economi Cymru | 12% | 56% | 32% | |
| Cyfleoedd i blant sy'n cael eu magu yng Nghymru | 18% | 56% | 26% | |
| Yr ardal yr ydych yn byw ynddi | 9% | 26% | 65% | |
| Eich bywyd cymdeithasol | 13% | 31% | 55% | |
| Eich gwaith (cyflogedig neu wirfoddol) | 5% | 18% | 41% | 36% |
| Eich cyflwr iechyd cyffredinol | 6% | 25% | 69% | |
| Eich bywyd yn gyffredinol | 3% | 16% | 81% | |

*Amh, amherthnasol.

# Ymddiried mewn ffynonellau gwybodaeth

**Gan feddwl nid yn unig am COVID ond yn gyffredinol, faint ydych chi'n ymddiried mewn gwybodaeth o'r ffynonellau canlynol, gan ddefnyddio graddfa o 0 i 10 lle mae 0 yn 'ddim yn ymddiried o gwbl' a 10 yn 'ymddiried yn llwyr'?**

**Ar gyfer pob ffynhonnell, a fyddech chi'n dweud bod lefel eich ymddiriedaeth ynddynt wedi cynyddu, wedi aros yr un peth neu wedi gostwng o ganlyniad i'r pandemig COVID?**

| | Ymddiriedaeth isel 0-3 | 4-6 | Ymddiriedaeth uchel 7-10 | Amh* | Cynyddu | Dim newid | Gostwng | Amh* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 12% | 27% | 61% | <1% | 28% | 53% | 19% | 1% |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 8% | 22% | 70% | <1% | 29% | 54% | 16% | 2% |
| Ffynonellau newyddion y BBC (gan gynnwys teledu a gwefannau) | 23% | 33% | 42% | 2% | 7% | 62% | 29% | 2% |
| Ffynonellau newyddion teledu eraill | 21% | 47% | 28% | 4% | 4% | 62% | 30% | 4% |
| Ffynonellau newyddion ar-lein eraill | 34% | 44% | 12% | 10% | 5% | 50% | 35% | 10% |
| Cyfryngau cymdeithasol fel Twitter a Facebook | 63% | 19% | 4% | 14% | 2% | 44% | 41% | 13% |
| Papurau newydd | 30% | 42% | 13% | 15% | 4% | 58% | 24% | 14% |
| Aelodau teulu | 15% | 38% | 47% | 1% | 11% | 76% | 12% | 1% |
| Ffrindiau | 15% | 41% | 43% | 1% | 11% | 76% | 12% | 1% |

*Amh, ddim yn berthnasol: dim barn, erioed wedi'i ddefnyddio. Ni ddarllenwyd y categori ymateb hwn i gyfranogwyr.

# Sut ydym yn teimlo?

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno 'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghymdogaeth | 43% | 47% | 4% | 4% | 1% |
| Rwy'n teimlo fy mod yn perthyn yn fy nghymdogaeth | 38% | 50% | 8% | 3% | 1% |
| Rwy'n teimlo synnwyr cryf o reolaeth dros fy mywyd | 30% | 47% | 10% | 8% | 4% |

# Sut ydym yn teimlo?

## Pa mor iach ydych yn ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn iach o gwbl — 10 = Iach iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 8% | 37% | 55% |

## Pa mor hapus ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn hapus o gwbl — 10 = Hapus iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 7% | 21% | 73% |

## Pa mor bryderus ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn bryderus o gwbl — 10 = Yn bryderus iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 52% | 28% | 21% |

## Ar sawl diwrnod yn ystod yr wythnos diwethaf wnaethoch chi o leiaf 30 munud o weithgaredd corfforol (digon i'ch gwneud chi allan o wynt)?

| 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|
| 23% | 41% | 35% |

# Sut ydym yn teimlo?

## Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimlo'n…

| | Unig | Ynysig |
|---|---|---|
| Byth | 61% | 66% |
| Weithiau | 27% | 22% |
| Yn aml | 9% | 8% |
| Wastad | 3% | 4% |

## Dros yr wythnos diwethaf i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni?

| Eich iechyd a lles meddwl | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 54% |
| Ychydig | 31% |
| Llawer | 14% |

## Cyhoeddwyd 8fed Ebrill 2022

## Ymholiadau

**Datblygydd yr Arolwg**

Yr Athro Mark A Bellis

**Data a Dadansoddeg**

Yr Athro Karen Hughes

**Cymorth Dadansoddol**

Natasha Judd


**E-bost**
Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Wê**
icc.gig.cymru

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol,
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall,
Caerdydd, CF10 4BZ


Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

phwwhocc.co.uk

@phwwhocc Phwwhocc

## Sut wyt ti?

Am wybodaeth cyffredinol ar sut i edrych ar ôl eich hunan, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod cyfyngiadau coronafeirws ymwelwch â:

**icc.gig.cymru/sut-wyt-ti**

